Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Ebrill 2018

1 Presennol – John Jones (Cadeirydd) Anwen Humphreys Clifford Williams – Garndolbenmaen, Richard Parry Edward Evans – Bryncir, Amanda N Owen Megan Ll Williams – Golan, Dafydd Thomas Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa, Huw Pritchard Delyth Evans – Pentrefelin, Cynghorydd Alwyn Gruffydd. Cynghorydd Stephen Churchman

2 Ymddiheuriadau – Maldwyn Owen, Gareth Jones, Gwilym Evans, Richard Williams, Eifion Williams.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – Stephen Churchman – (Eitem 9 Adroddiad Pentrefi Cross Foxes). Richard Parry (Eitem 18 Ceisiadau Cynllunio C18/0168/36/LL).

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 1/2/18 a 1/3/18 Anwen Humphreys yn datgan eu cywirdeb ac Richard Parry yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Hyfforddiant Unllais (Cod Ymddygiad) – Y gost ar gyfer uchafswm o 20 person yw £399 a chostau teithio yr hyfforddwr. Clerc i holi Cyngor Gwynedd os ydynt yn bwriadu cynnal hyfforddiant yn y dyfodol agos.

Cyfarfod Blynyddol - nid yw Neuadd Penmorfa ar gael, felly bydd yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

Blwch Post Pentrefelin - wedi ei baentio.

Pont y Traeth - derbyniwyd ateb gan Osian Richards, Cyngor Gwynedd yn nodi y bydd y mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Adran Ymgynghorol.

Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd - derbyniwyd ateb gan Cffld Cymru yn nodi y bydd sylwadau'r Cyngor Cymuned yn cael eu hystyried pan fydd y Comisiwn yn paratoi cynigion terfynol. Derbyniwyd ateb gan Glerc Cyngor Cymuned Llanfrothen yn datgan nad yw'r mater wedi cael ei drafod eto. Ni dderbyniwyd ateb gan Gyngor Cymuned Beddgelert.

Lamp Rhif 18 Garndolbenmaen - aelod o staff Goleuo Stryd, Cyngor Gwynedd wedi dweud ei fod am gysylltu gyda'r Cynghorydd Anwen Humphreys, ond nid yw wedi gwneud. Clerc i gysylltu.

Llwybrau Cyhoeddus rhif 1, 3 a 4 - adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cerdded y llwybrau gydag aelod o'r Adran Hawliau Tramwy. Llwybrau 3 a 4 - coeden ar draws y llwybr a choed wedi tyfu yn ei ganol. Ni fydd gwaith clirio yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Llwybr Rhif 1 - y llwybr yn wlyb. Bwriedir agor y draeniau wrth y waliau cerrig ac agor y ffos wrth Gaer Ffynnon.

Llwybr Rhif 8 Mynydd Glas - derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod y llwybr yn fwdlyd. Bwriedir rhoi cerrig ar y llwybr.

7 Mynwentydd

Ynys Cynhaearn - bedd sydd wedi ei hail agor ym Mehefin 2017 wedi suddo. Clerc i gysylltu gyda'r Ymgymerwr.

[redacted] Eitem caeëdig.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr ger Canolfan Golan - coeden ar draws y llwybr. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Hawliau Tramwy i'w hysbysu o hyn a gofyn iddynt osod arwyddion yn rhybuddio fod y llwybr wedi cau nes adferir y sefyllfa.

9 Adroddiad Pentrefi –

Pentrefelin

Llifogydd o Lon Tabor i gaeau Tyddyn Ysguboriau. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Penmorfa

Drych newydd wedi ei osod wrth Tyn Llan.
Meinciau picnic wedi'u harchebu ar gyfer y Cae Chwarae gydag arian a dderbyniwyd gan adeiladwyr Hafod-y-Gest. Gwter tu allan i Ffynnon Beuno heb ei lanhau. Cynghorydd Stephen Churchman am gysylltu gyda Adrian Williams, Adran Priffyrdd.

Garndolbenmaen

Er gwybodaeth – yn ddiweddar cafwyd problemau gyda'r gwasanaeth casglu clytiau babanod.
Gadawodd y Cynghorydd Stephen Churchman yr ystafell.

Cyfarfod Cymdeithas Cymunedol Garndolbenmaen Tŷ Tafarn Cross Foxes Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Fawrth i drafod prynu'r tŷ tafarn.

Yn dilyn cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd, mae'n rhaid i'r Pwyllgor baratoi cynllun busnes ac agor cyfrif banc. Bydd dyfodol y tŷ tafarn yn cael ei drafod mewn cyfarfod ym Mhwllheli ar yr 16eg o Ebrill.

Dychwelodd y Cynghorydd Stephen Churchman i'r ystafell.

Dolbenmaen
Angen clirio eiddew oddi ar y lloches bws. Clerc i holi Idris am bris i wneud y gwaith.

10 Pwyllgor Mynwentydd

Dewiswyd Cynghorwyr i wneud arolwg o'r mynwentydd yn ystod mis Ebrill/Mai.

Mynwent Bethel - Amanda N Owen, Megan Lloyd Williams.
Mynwent Prenteg - Richard Williams, Gwilym Evans,
Tynllan, Penmorfa - Dafydd Thomas, Gwenno Huws.
Uwch y Llyn, Pentrefelin – Huw Pritchard, Delyth Evans.
Pennant, Cwm Pennant - John Jones, Edward Evans.
Bydd y Cynghorwyr yn adrodd yn nol yn ystod cyfarfod mis Mehefin.

11 Arwyddion cau ffordd - trafod yng nghyfarfod mis Mai..

12 Trefnu cyfarfod ar gyfer adolygu polisiau'r Cyngor - Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nos Fawrth 17eg o Ebrill am 7 pm.

13 Ymateb swyddfa'r Archwilydd Allanol i lythyr y Cyngor at Dafydd Elis Thomas

Trafodwyd cynnwys y llythyr. Penderfynwyd cysylltu gyda Dafydd Elis Thomas i'w holi ynglŷn â natur y cwynion a dderbyniwyd gan Gynghorau Cymuned eraill.

14 Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Derbyniwyd copi terfynol o'r adroddiad uchod - Adran 13 Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned yn berthnasol i'r Cyngor.

15 Diffibrydd Ysgol Garndolbenmaen - Derbyniwyd e-bost gan Bennaeth Ysgol Garndolbenmaen yn nodi ei bod wedi gwneud cais am grant i brynu diffibrydd i'r pentref/ysgol ac yn gofyn byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu cefnogi'r ymdrech. Clerc i gysylltu i ddweud fod y Cyngor yn cefnogi'r ymdrech. Penderfynwyd trafod y posibilrwydd o wneud cyfraniad ariannol ar ôl cael mwy o wybodaeth os yw'r cais am grant wedi bod yn llwyddiannus.

16 Swyddfa Archwilio Cymru – Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned - Penderfynwyd peidio cwblhau'r arolwg.

17 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – dim.
b Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Eryri Newidiadau Ffocws.
c Llywodraeth Cymru – Darparu Toiledau yng Nghymru – Strategaeth Toiledau Lleol.
ch Unllais Cymru – Seremoni Gwobrwyo Arfer Arloesol Blynyddol 29/3/18.
d Calonnau Cymru yn gweithio gyda'ch Cymuned – gyrrwyd copi at Bennaeth Ysgol Garndolbenmaen.
dd E-bost Gareth Wyn Williams Gohebydd Democratiaeth Leol.
e Gwahoddiad gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Clerc i fynychu'r cyfarfod yn Llandudno 9/5/17.
Ychwanegwyd –
f Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth 7/4/18 i drafod y ffordd ymlaen i achub clybiau ieuenctid.
ff Cyfarfod Age Concern ym Mangor 10/4/18.

18 Cynllunio
Rhestrau 5/3, 12/3, 16/3, 23/3/18.

Ceisiadau Cynllunio

C18/0179/36/LL
Codi uchder to tŷ presennol Tai Isaf, Garndolbenmaen, LL51 9TJ. Sylwadau erbyn 28/03/18. Mynegwyd pryder oherwydd ei fod yn enghraifft o fwthyn Cymreig traddodiadol sydd yn brin iawn yn yr ardal.

C18/0168/36/LL

Cais i newid amod 2 o ganiatad cynllunio C17/0772/36/LL er mwyn gallu diwygio llwybr gwyro llwybr cyhoeddus rhif 18. Bryncir Sub-station, Bryncir. LL51 9LQ Sylwadau erbyn 30/3/18. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/L261A
Troi ac ymestyn cyn adeilad amaethyddol i dŷ a garej, codi sied a thŷ gwydr, creu ffordd fynedfa newydd i'r eiddo a gosod carafan am gyfnod dros dro. Sylwadau erbyn 29/3/18. Dim gwrthwynebiad.

19 Materion Ariannol
Ceisiadau am arian - Ambiwlans Awyr Cymru i Blant.

Monitro'r gyllideb – Cafodd y llyfrau eu gwirio am y cyfnod Hydref – Rhagfyr 2017. Angen newid dyddiad ar un derbyniad o arian.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 225.64
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 56.40
Costau teithio Cynghorydd	= £ 31.70
Ychwanegwyd	
Gwasg y Bwthyn	= £ 24.00

Derbyniadau – Cyngor Gwynedd ad-daliad llwybrau cyhoeddus £886.00
Pritchard & Griffiths £110.00

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,778.47 Cyfredol - £5,887.63

20 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –
- Llwybr cyhoeddus ger Canolfan Gymdeithasol Golan,
- Cyfarfod Blynyddol.